

Troi Uchelgais yn Weithredu: adroddiad cynyddol

Mawrth '22



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Cefndir

Mae polisi a deddfwriaeth ar blant yng Nghymru wedi'u seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP, 1989). Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus sy'n cyfrannu at wireddu hawliau plant. Mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hyn, a bydd yn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddwyd ['Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru'](#) (y cyfeirir ato o hyn allan yma fel YFfG) gan Gomisiynydd Plant Cymru (CPC). Mae'n fframwaith egwyddorol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yn CCUHP ac wedi'i greu â chynghor arbenigol gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc. Mae YFfG yn ceisio helpu sefydliadau yn y sectorau preifat a chyhoeddus i gyflawni hawliau plant, gan roi arweiniad a chymorth ymarferol ynghylch dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau i blant.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Nodau

Nod y gwerthusiad hwn yw deall:

1. Pa waith sydd wedi cael ei wneud i gyflawni'r nod a ddymunir gan YFfG?
2. Beth sydd wedi gweithio'n dda a pha heriau a wynebwyd wrth wreiddio dull gweithredu YFfG?
3. Beth sydd wedi newid o ganlyniad i wreiddio dull gweithredu YFfG? Faint o'r newid hwn sydd o ganlyniad i YFfG? Beth arall sydd wedi arwain at newid?
4. Beth sy'n angenrheidiol i wneud YFfG yn gynaliadwy?

Bydd yr adroddiad gwerthuso yn pennu pa mor llwyddiannus fu cefnogaeth Comisiynydd Plant Cymru a'i thîm wrth i gyrff cyhoeddus fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Bydd yr adroddiad hefyd yn nodi arfer da, heriau mae pobl wedi'u hwynebu ar hyd y ffordd, a darparu argymhellion ynghylch sut gall swyddfa'r Comisiynydd helpu i oresgyn y materion yn y dyfodol, fel bod llawer mwy o sefydliadau yn rhoi blaenoriaeth i wreiddio dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau sy'n cyflawni newidiadau gwirioneddol yn ansawdd bywyd beunyddiol plant a chyfleoedd cyfartal i gyflawni eu potensial.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Dulliau

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon mewn 3 rhan:

RHAN 1 — Archwilio dogfennau a oedd yn amlygu gwaith a wnaed yn y cyfnod 2017-21 i wreiddio dull gweithredu hawliau dynol. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys Adroddiadau Blynyddol, cynnwys ar y we megis diweddariadau i argymhellion polisi, ac astudiaethau achos YFfG a dogfennaeth a ddarparwyd gan dîm y Comisiynydd.

RHAN 2 — Arolwg ar-lein wedi'i fwriadu ar gyfer y rhai sydd wedi gweithio gyda thîm y Comisiynydd i wreiddio YFfG mewn rhyw ffordd.

RHAN 3 — Hwyluso grwpiau ffocws gyda chyfranogwyr yr arolwg er mwyn dilyn ymlaen a siarad yn fanylach am eu defnydd a'u profiad o YFfG.

Bu 30 o sefydliadau'n cymryd rhan yn yr arolwg, a 22 mewn Grwpiau Ffocws.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Canfyddiadau

Pa waith sydd wedi cael ei wneud i gyflawni'r nod roedd YFfG yn ei ddymuno?

Mae llawer iawn o gwaith yn digwydd oddi mewn i dîm y Comisiynydd wrth roi egwyddorion YFfG ar waith, yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan y tîm i gefnogi eraill i roi'r egwyddorion ar waith. Mae'r adran sy'n dilyn yn cychwyn trwy amlinellu'r gwaith o fewn y sefydliad i roi'r egwyddorion ar waith, a dilynir hynny gan grynodeb o gamau gweithredu'r sefydliad wrth gefnogi eraill i wreiddio YFfG.

Gwaith mewnol CPC fel sefydliad i roi YFfG ar waith yn eu gwaith eu hunain

Gwreiddio

- Mae'r Polisi Cynllunio Strategol a'r Cynllun Strategol wedi'u seilio o amgylch hawliau plant.
- Mae pob disgrifiad swydd yn cyfeirio'n benodol at hawliau plant.
- Mae Tîm Cyfranogiad ymroddedig yn bodoli i hybu a gweithredu prosiectau sydd â'r nod penodol o wrando ar blant a phobl ifanc.

Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu

- Mae'r Tîm Ymchwiliadau a Chyngor (YaCh) yn bodoli i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad cyfartal i'w hawliau, gan gefnogi pobl sydd o bosib yn methu gwneud hynny eu hunain, neu wedi'u gwthio i'r cyrion i'w hatal rhag gwneud hynny.
- Cynhelir sgriniad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob prosiect yn ystod y cynllunio cynnar, gydag Asesiadau llawn yn cael eu cynnal lle mae'r sgrinio'n dangos bod angen hynny.
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol, cynllun cynhwysfawr sy'n cynnwys gofyniad i bob rheolwr prosiect gynnal Asesiad Effaith llawn ar Gydraddoldeb ar gyfer eu gwaith.

Grymuso

- Mae ein gwaith cyfathrebu yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant a rôl y Comisiynydd, fel bod plant eu hunain yn cael mynediad at wybodaeth sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau.
- Trwyddedu a Hyfforddiant Widgit i'r staff: gall symbolau Widgit helpu defnyddwyr o bob oed a gallu a chefnidir sy'n cael trafferth gyda thestun neu gyfathrebu mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae trwydded wedi cael ei phrynu ac mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar y feddalwedd fel bod modd cynhyrchu deunyddiau hygyrch, dwyieithog yn fewnol.
- Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc: Sefydlwyd y panel yn 2016, ac mae'n cynnwys rhwng 16 a 35 o aelodau sy'n blant a phobl ifanc 11-18 oed. Rôl y panel ymgynghorol hwn yw galw'r Comisiynydd a'i swyddfa i gyfrif ynghylch cyflawni eu cynllun tair blynedd a'u cynllun gwaith blynyddol.
- Creu cyfres o ddeunyddiau wedi'u teilwra i hybu ac annog cyrff cyhoeddus ledled Cymru i fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.



Cyfranogiad

- Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'r fîm o staff i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru.
- Mae ymrwymiad i sicrhau bod yr holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn gynhwysol ac yn hygyrch yn glir mewn adroddiadau a pholisi.

Yn ystod y cyfnod 2020/2021 (sy'n arwyddocaol oherwydd ei fod yn ystod y cyfnod clo):

Daliodd y Comisiynydd ati i ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd ar-lein

- Casglodd farn 44,000 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru trwy arolygon [‘Coronafeirws a Fi’](#)
- Sicrhaodd bron 10,000 o bleidleisiau yn [etholiad Senedd paralel cyntaf](#) y wlad i bobl ifanc 11-15 oed.
- Cynhaliodd wersi hawliau plant ar-lein ar gyfer 864 o blant a phobl ifanc.
- Ymgysylltodd â 15,504 o blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd.
- Gweithiodd gyda 95 o ysgolion uwchradd ar draws Cymru fel rhan o'r [cynllun Llysgenhadon Myfyrwyr](#).
- Cynyddodd aelodaeth y cynllun Llysgenhadon Gwych i 606 o ysgolion cynradd ledled Cymru
- Yn 2018, holodd bron 7000 o blant a phobl ifanc oedden nhw'n teimlo eu bod yn derbyn eu holl hawliau. Arweiniodd hynny at ymchwil bellach gyda disgyblion ac athrawon mewn ysgolion uwchradd ynghylch sut roedd cyfranogiad yn gweithio yn eu hysgolion nhw a pha heriau sydd i'w hwynebu wrth sicrhau bod pobl ifanc yn gallu chwarae rhan wirioneddol mewn penderfyniadau. Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddwyd adroddiad ([‘Gyda'n Gilydd’](#)) a chyfres o adnoddau gyda chanfyddiadau'r gwaith a gwybodaeth am sut mae gwella a gwerthfawrogi cyfranogiad pobl ifanc a sut gallai pobl ifanc rymuso eu hunain i sbarduno newid a gweithredu ([‘Gwneud Gwahaniaeth’](#)).
- Cynhaliodd grwpiau ffocws gyda 55 o bobl ifanc ledled Cymru fel rhan o [‘ddiwrnod gwranddo’](#) ym mis Tachwedd 2021 i asesu effaith cyfyngiadau'r 'cyfnod clo byr' yng Nghymru ym mis Hydref.

Yn y cyfnod oedd yn weddill (2017-2019):

- Ymgysylltodd â mwy na 42,408 o blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn digwyddiadau, gweithdai a chyfarfodydd.
- Ymgysylltodd â barn 2,000 o blant am fwlio er mwyn datblygu [‘Stori Sam’](#)
- Sicrhaodd ymatebion gan 13,796 o blant yn [arolygon addysg YFfG](#).
- Ymgynghorodd â 10,000 o blant a phobl ifanc i lywio'r cynllun tair blynedd diweddaraf.

Atebolwyrdd

- Mae paneli ymgynghorol o bobl ifanc yn rhoi cefnogaeth strategol i'r Comisiynydd a'r fîm, ac mae cynlluniau ar droed i sicrhau bod y Comisiynydd yn dod yn atebol i Senedd leuenticid Cymru, sy'n cael ei hethol yn ddemocrataidd.
- Mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun strategol yn cael ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol, fel y mae asesiad o sut mae CPC yn perfformio yn erbyn egwyddorion YFfG.
- Mae gwybodaeth ynghylch sut mae cwyno am y sefydliad ar gael mewn fformat hygyrch ar wefan y Comisiynydd.



Ymgysylltiad CPC â sefydliadau ALLANOL ar egwyddorion YFfG

Gwreiddio

- Dylanwadu ar Lywodraeth Ryngwladol, Genedlaethol a Lleol, e.e. cefnogwyd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio YffG yn sail ar gyfer ei Chynllun Hawliau Plant newydd
- Cefnogaeth Sector-benodol:

Addysg:

Mae canllawiau'r [Ffordd Gywir i Addysg](#) wedi cyfrannu at ddatblygu polisi addysg yng Nghymru yn y ffyrdd canlynol:

- Ceir cyfeiriadau at y canllawiau, ac amlinellir y pum egwyddor yn y Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol statudol i Gymru 2021.
- Ceir cyfeiriadau at y canllawiau, ac amlinellir y pum egwyddor yn y canllawiau diogelu statudol ar gyfer lleoliadau addysg, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020.
- Ceir cyfeiriadau at y canllawiau, ac amlinellir y pum egwyddor yn y Fframwaith statudol ar gyfer gwreiddio dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a llesiant 2021.
- Ceir cyfeiriadau at y canllawiau yng nghanllawiau gwrthfwlio statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau addysg, Hawliau, Parch a Chydraddoldeb 2019

Cyfiawnder Ieuencid:

- Datblygwyd seminarau blynyddol mewn cydweithrediad â'r sector(au) Cyfiawnder Ieuencid a Iechyd. Mae'r seminarau'n gyfle i weithwyr proffesiynol rannu ac ysbrydoli arfer da yng nghyswllt gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant.
- **HMP Parc:** cefnogaeth i wreiddio hawliau plant yn eu gwaith.
- **Cartref Plant Diogel Hillside:** hwyluswyd nifer o weithdai hawliau plant i staff (Addysg a Gweithredol) sy'n gweithio yng Nghartref Plant Diogel Hillside er mwyn cefnogi'r sefydliad i wreiddio hawliau ym mhob rhan o'u gweithrediadau a'u hymarfer.

Iechyd:

Ers 2018, cynhaliwyd seminarau iechyd blynyddol mewn cydweithrediad â Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwahoddwyd holl fyrdau ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru i ddod at ei gilydd i drafod hawliau plant mewn lleoliadau iechyd, i adrodd ar eu cynnydd, ac i rannu syniadau a dysgu. Hefyd cynigiwyd cefnogaeth wedi'i theilwra, gan gynnwys:

- Datblygu siartrau/addunedau hawliau plant ym mwrdd iechyd Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Cefnogaeth i sefydlu Byrddau Ieuencid Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Iechyd Cyhoeddus Cymru: cefnogaeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn cydgynhyrchu Datganiadau Ansawdd Blynyddol i Bobl ifanc (ar gyfer plant iau a hŷn) ochr yn ochr â'u Hadroddiadau Blynyddol. Mae'r rhain wedi arwain at Uwchgynadleddau Ieuencid ar Iechyd Cyhoeddus, y



mae'r adborth ohonynt wedi arwain at raglen Llysgenhadon Ifanc. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys cynnig cyfleoedd am 3 interniaeth pedair wythnos yn lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Heddlu — Gweithio gyda'r holl heddluoedd i annog dull gweithredu seiliedig ar hawliau. Gweithio gyda Heddlu De Cymru i ddatblygu siarter a chynllun gweithredu ar gyfer gwreiddio YFfG. Gweithio gyda Heddlu Dyfed Powys i gyflwyno hyfforddiant ynghylch CCUHP ac YFfG sydd wedi arwain at ddatblygu siarter a hyfforddiant pellach.

Ymddiridolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru: cefnogaeth i gynnal ymarferiad ymgysylltu yn gofyn i blant a phobl ifanc sut roedden nhw'n teimlo gallai'r Ymddiriedolaeth wella'i rhyngweithio â phlant a phobl ifanc. Mae hyn wedi arwain at ymrwymiad i gyfres o addewidion (a gynhyrchwyd ar y cyd â phlant) sydd wedi'u bwriadu i fod yn fwy ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc, ac sy'n cynnwys defnyddio iaith sy'n fwy priodol o ran oed a dealltwriaeth.

Yr Amgylchedd: Cefnogwyd Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried sut mae dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn ffitio i strwythur eu sefydliad. Mae gwaith gyda grwpiau yn yr ysgol a'r gymuned wedi arwain at ddatblygu eu Siarter Hawliau eu hunain.

Awdurdodau Lleol:

- **Cyngor Wrecsam:** cefnogaeth i beilota'r broses o wreiddio dull gweithredu YFfG mewn gwaith gofal cymdeithasol ac addysg, gan arwain at ddatblygu offeryn y Matrics hunanasesu. Ymhlith llwyddiannau'r peilot hwn hefyd mae datblygu dull 'siop dan yr unto' o dderbyn sylwadau, canmoliaeth a chwynion gan blant a phobl ifanc am unrhyw wasanaeth a gynigir gan yr Awdurdod Lleol.
- **Cyngor Sir Penfro:** gweithdy gydag aelodau'r Cyngor, gyda ffocws ar dlodi a sut gall egwyddorion Y Ffordd Gywir gefnogi aelodau'r cyngor i ystyried plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi trwy lens hawliau plant, roedd hyn yn cynnwys gweithdy ymarferol o amgylch yr egwyddorion ac adnodd flodi'r Comisiynydd, '[Cofia Ceri](#)'.
- **Cyngor Sir Fynwy:** wedi datblygu Strategaeth Gyfranogiad sy'n cydweddu ag egwyddorion YFfG ac yn ffitio y tu mewn iddynt
- **Cyngor Abertawe:** cefnogaeth i integreiddio YFfG mewn Hyfforddiant Hawliau Plant, i wreiddio YFfG a man canol eu Cynllun Hawliau Plant, a chefnogaeth i beilota YFfG mewn addysg yn fodd i fesur dull gweithredu seiliedig ar hawliau mewn lleoliadau ysgol.

Chwaraeon:

- **Chwaraeon Cymru:** cefnogaeth barhaus i'w helpu i ddefnyddio'r matrics hunanasesu i nodi pa waith maen nhw eisoes yn ei wneud i gefnogi hawliau Plant ac i ystyried unrhyw gyfleoedd gallan nhw fanteisio arnyn nhw i barhau i fapio ffyrdd ymlaen.
- **Cymdeithas Chwaraeon Cymru:** hyfforddiant ar Egwyddorion Y Ffordd Gywir mewn Lleoliadau Chwaraeon

Hyfforddiant er mwyn i staff ddeall, hybu a gwreiddio hawliau plant

Dyma rai enghreifftiau o hyfforddiant hawliau plant i staff yn ystod y cyfnod 2017-2021:

- **Heddlu De Cymru:** cyflwyno hyfforddiant YFfG i Gomand Aur Heddlu De Cymru: arweinwyr uwch yr heddlu. Arweiniodd hyn at ymrwymiad i wreiddio Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yn eu gwaith, a gweithio gyda'r heddlu a disgyblion o Ysgol Pentrehafod a Chartref Plant Diogel Hillside i ddatblygu siarter plant.



- Arweiniodd hyfforddiant i hyb cadetiaid yr heddlu at gyflwyno rôl y Comisiynydd a CCUHP, a chefnogaeth ddilynol wrth feddwl am Y Ffordd Gywir yn eu gwaith.
- **Heddlu Dyfed Powys:** hyfforddiant YFfG i swyddogion sy'n hyrwyddo gwaith plant yn yr heddlu, gan gynnwys yn benodol sut mae gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn fwy cynaliadwy yn hyfforddiant parhaus heddwision i'r dyfodol.
- **Consortia Addysg:** cyflwynwyd digwyddiadau hyfforddi'r hyfforddwr ar YFfG i arweinwyr consortia addysg EAS, gan arwain at ddatblygu a pheilota modiwl hyfforddi athrawon YFfG gyda mwy na 30 o athrawon, a rhaeadrwyd hyn i holl arweinwyr iechyd a llesiant y consortia.
- **Prifysgol Casnewydd:** hyfforddiant YFfG i fyfyrwyr gwaith ieuencid o amgylch rôl y Comisiynydd a CCUHP.
- **Hyfforddiant Hywel Dda:** i bobl sy'n hyrwyddo cynnwys ieuencid.
- **EYST:** Hyfforddiant i dîm staff cyfranogiad EYST ar CCUHP ac YFfG.

Gweithdai gyda gweision sifil:

- **'Hawliau Plant ym maes Polisi yng Nghymru'** — amlygwyd sut roedd pob un o egwyddorion YFfG yn berthnasol trwy'r broses bolisi. Cofrestrodd **35 o swyddogion** o wahanol adrannau Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer y sesiwn oedd yn cynnwys llawer o drafodaeth ryngweithiol ynghylch sut i sicrhau hawliau plant trwy'r broses bolisi.
- **Sesiwn hyfforddi ar Hawliau Plant, yn rhannu canlyniadau o'n harolwg Coronafeirws a Fi 2021 gyda 70 o swyddogion LIC.** Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar sut gallai canfyddiadau lywio penderfyniadau parhaus a sut gallai LIC sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn yr ymateb parhaus i'r pandemig.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ddilynol gyda **mwy na 150 o staff Llywodraeth Cymru** ar hawliau plant a chanfyddiadau arolygon Coronafeirws.
- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ar Egwyddorion Y Ffordd Gywir.

Datblygu adnoddau hyfforddi penodol YFfG

Datblygwyd [adnoddau i Israddedigion](#) i alluogi myfyrwyr i ystyried sut gall hawliau plant eu helpu nhw yn eu gwaith i'r dyfodol. Mae tair darlith/tri chynllun gwera i fyfyrwyr prifysgol a choleg yn cyflwyno hawliau plant a gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Cynhyrchwyd modiwlau [hyfforddi athrawon YFfG](#) yn ogystal.

Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu

Gwaith Gwrthfwlio: Yn 2016, rhannodd dros 2,000 o blant a phobl ifanc eu profiadau o fwlio trwy Dasg Arbennig, a chynhwyswyd canlyniadau hynny yn ein hadroddiad, **'Stori Sam'**. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac eraill — gan ddylanwadu ar lansio canllawiau newydd gwrthfwlio gan y Llywodraeth yn 2019, Hawliau, Parch a Chydraddoldeb.

Grymuso

Cynlluniau Llysgenhadon: galluogi plant a phobl ifanc i ddod yn llysgenhadon dros hawliau plant a'r Comisiynydd yn eu hysgolion a'u cymunedau. Hyd yma, mae 606 o ysgolion cynradd a 95 o ysgolion uwchradd wedi ymgysylltu â'r Cynllun Llysgenhadon. Yn 2020 yn unig, cafodd 475 o ddisgyblion hyfforddiant i roi'r cynllun Llysgenhadon ar waith yn eu Hysgol trwy ddod yn Llysgenhadon Hawliau.



Gwneud Gwahaniaeth — Canllaw Person Ifanc i Weithredu: Adnodd a ddatblygwyd i alluogi pobl ifanc i wneud gwahaniaeth drostynt eu hunain.

Cyfranogiad

- **Cynlluniau Llysgenhadon:** cefnogi ysgolion a grwpiau cymunedol i wrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys.
- **Arolygon Coronafeirws a Fi:** cynhaliwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gan alluogi'r llywodraeth i wrando ar filoedd o blant am eu profiadau yn ystod y pandemig; adlewyrchwyd y rhain yn sylweddol mewn asesiadau effaith dilynol ar hawliau plant a phenderfyniadau cysylltiedig â'r pandemig gan y llywodraeth. Hefyd cafodd adroddiadau wedi'u teilwra eu dosbarthu i bob awdurdod lleol yn ystod y pandemig, i'w galluogi i ystyried barn plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau lleol.
- **Cefnogi datblygiad strategaethau cyfranogiad a fforymau pobl ifanc:** cyflawnwyd trwy seminarau neu ymgysylltiad wedi'i deilwra ar gyfer sefydliadau oedd yn cynnwys Cymwysterau Cymru a lechyd Cyhoeddus Cymru.

Atebolrwydd

Mae CPC wedi gwneud llawer o waith i gefnogi sefydliadau i ystyried sut maen nhw'n gwneud eu hunain yn atebol, yn arbennig trwy gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra yn ystod y Pandemig. Dyma rai enghreifftiau:

- Cefnogi Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru wrth iddyn nhw gyfathrebu eu penderfyniadau i blant.
- Cynnal sesiynau craffu a chynghor i weinidogion gyda phobl ifanc.
- Gweithio gydag Estyn i ymgysylltu â phobl ifanc wrth drafod pynciau sensitif a bwydo'r canlyniadau yn ôl iddyn nhw.

Beth sydd wedi gweithio'n dda, a beth fu'r heriau wrth wreiddio dull gweithredu YFfG?

"Dull gweithredu seiliedig ar gryfderau yw YFfG — mae'n rhoi'r offer i bobl weithio yn y ffordd gywir, a lle bynnag rydych chi'n gweithio, mae modd ei ddefnyddio'n sail ar gyfer dull cyffredinol, egwyddorol o ymdrin â phlant — ond mae angen iddo gael ei gynnig yn fwy cyson ac i'w gwmpas gael ei estyn yn genedlaethol."

Cyfleoedd

- Roedd pob un o'r cyfranogwyr yn gweithio mewn sefydliadau mawr, cymhleth lle roedd nifer o gyfarwyddbau deddfwriaethol, polisïau ac agendâu yn tywys eu gwaith. Bron ym mhob achos, roedd y rhain hefyd yn wasanaethau nad oeddent yn cael eu bwriadu ar gyfer plant a phobl ifanc yn unig, ond a oedd yn gwasanaethu'r boblogaeth ehangach. Er bod hynny wedi achosi llawer o heriau (gweler isod), teimlai'r cyfranogwyr yn unfrydol fod gan YFfG botensial i ddarparu **dull gweithredu cyson a chyffredin o ymdrin â hawliau**, lle gellid dangos eu holl waith. I'r cyfranogwyr dan sylw, mae YFfG yn darparu fframwaith i'w groesawu ar gyfer mesur ymarfer seiliedig ar hawliau ac addewidion a wneir gyda bwriad da i weithredu.
- Nododd pawb yr **hygredd mae bathodyn y Comisiynydd yn ei roi** gydag YFfG. Croesawyd hyn yng nghyswllt sicrhau ymrwymiad lefel uwch.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

- Roedd mwyafrif llethol yn dathlu'r cyfleoedd i gydweithio a ddaw yn sgîl YFfG. Ym mhob sector gwnaed ceisiadau am fwy o gyfleoedd i ddod ynghyd, naill ai mewn seminarau neu fforymau. Gwnaed y ceisiadau hyn ar gyfer fforymau rhwng sectorau a chyfleoedd ar draws sectorau.
- Croesawyd cefnogaeth ymarferol i ddeall a gweithredu YFfG ar bob adeg.

Heriau

- Y ffocws yn ystod y **pandemig** fu cadw plant yn fyw, yn ddiogel, yn iach, ac yn derbyn addysg. Yn achos llawer o gyfranogwyr, newidiwyd eu rolau i ymdrin ag anghenion eu sefydliad yn ystod Covid, ac ar y cyfan roedd y ffocws ar wreiddio dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau yn gyfyngedig. Mae angen adnewyddu gwybodaeth a dealltwriaeth am YFfG.
- Yn achos pob cyfranogwr, gwelir **galwadau cystadleuol** fel pwysau gwleidyddol, deddfwriaeth, y pandemig, cyfraddau troseddu fel 'sbardunau' sy'n cyfeirio gwaith, dros ben hawliau. Nid yw hynny'n golygu nad yw hawliau'n bwysig neu nad ydynt yn cael eu gwireddu gan blant trwy gyflawni'r ffactorau eraill hyn, ond nododd y cyfranogwyr y gall fod yn anodd 'gwerthu' ymgorffori YFfG a dulliau seiliedig ar hawliau yn benodol. Mae gwaith i ddangos sut mae'r galwadau hyn, a welir fel rhai cystadleuol, yn cyd-fynd ag egwyddorion YFfG yn 'hanfodol' i **sicrhau ymrwymiad lefel uwch**.
- Nododd y cyfranogwyr yn unfrydol fod ganddynt rôl arweiniol ym maes hawliau plant yn eu sefydliadau ac roeddent yn ddiamau yn barod, yn llawn cymhelliad, ac yn angerddol ynghylch gweithio gyda phlant a phobl ifanc a gwreiddio dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn eu ymarfer. Fodd bynnag, roedd swydd y cyfranogwyr yn eu sefydliadau, **eu gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau a pha mor uchel oedd eu swyddi yn chwarae rôl bwysig o ran cwmpas yr heriau roedden nhw'n eu hwynebu gydag YFfG**, yn arbennig o ran gwreiddio ac atebolrwydd. Ymddengys bod cyfatebiaeth rhwng awdurdod i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer mewn sefydliad a'r gallu i wreiddio YFfG. Yn gyffredinol, teimlai'r cyfranogwyr fod angen i'r **arweinwyr a benodir yn ffurfiol** fod yn rhai sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad polisi a chynllunio, er mwyn treiddio trwy bob agwedd ar waith sefydliad. Heb wreiddio YFfG fel hyn a galw pobl i gyfrif amdano, teimlai'n sylweddol anoddach, ac yn aml yn amhosibl ei gyflawni ar lefel gwasanaeth/sefydliad cyfan.
- Thema allweddol yn yr heriau oedd **diffyg llywodraethu**, h.y., diffyg atgyfnerthu YFfG fel fframwaith cyffredin ar gyfer gwreiddio hawliau ar lefel genedlaethol. Er bod y cyfranogwyr yn cydnabod ac yn defnyddio llawer o wahanol fentrau a ffyrdd o wireddu hawliau plant yn ymarferol, yn gyffredinol roedd y cyfranogwyr yn annog cydnabyddiaeth bod modd i YFfG weithredu fel fframwaith troswaol sy'n ddigon eang i gwmpasu gwaith arall. Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i weld cyfarwyddyd a chyfrifoldeb clir a fyddai'n cefnogi cyrff cyhoeddus i wreiddio hawliau, h.y., YFfG mewn fframweithiau polisi ac ymarfer. Mae hyn yn cynnwys:
 - Ymrwymiad cenedlaethol clir i YFfG, fel bod ganddo'r 'dannedd' angenrheidiol i sicrhau ymrwymiad gan arweinwyr lefel uwch mewn sefydliadau.
 - Cyfathrebu clir â'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y gallan nhw/y dylen nhw ddefnyddio YFfG i ddylanwadu ar eu gwaith.
 - Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau adferiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a pholisiau eraill sy'n dylanwadu ar weithrediad gwasanaethau i blant, e.e., cwricwla ysgolion lleol a Chynlluniau'r Heddlu a Throseddu.
 - Mwy o atebolrwydd am wreiddio egwyddorion YFfG mewn gwaith a ariannir gan y llywodraeth: Dylai sut mae hawliau'n cael eu gwreiddio gael ei integreiddio i'r adroddiadau, y ceisiadau ariannu a'r prosesau eraill ar gyfer sicrhau atebolrwydd ar lefel llywodraeth Cymru.
- **Cyfranogiad** oedd yr egwyddor a ddefnyddiwyd amlaf o bell ffordd, ac roedd cyfoeth o arfer da ar waith, er bod hynny'n aml trwy ewyllys da unigolion, neu heb adnoddau digonol. Yn achos sectorau sydd heb eu rhwymo



gan y ddyletswydd cyfranogiad statudol a geir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, roedden nhw'n gweld mandad o'r fath fel un cadarnhaol, yn yr ystyr ei fod yn annog gwreiddio cyfranogiad, a sicrhau atebolrwydd.

- Mae cysylltiad annatod rhwng y pwyntiau uchod a **diffyg dealltwriaeth** (yn arbennig ymhlith y rhai sydd ddim yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc); o hawliau plant yn gyffredinol, YFfG, sut mae gwreiddio dull seiliedig ar hawliau plant a manteision strategol gwneud hynny, a chyfranogiad ac ymgysylltu'n effeithiol ac yn ystyrion â phlant a phobl ifanc:
 - Roedd sut a ble roedd y cyfranogwyr yn cael mynediad i hyfforddiant hawliau plant yn amrywio'n fawr. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod anghysondeb yng nghynnwys ac argaeledd hyfforddiant, oedd yn achosi heriau o ran mynediad iddo, a dealltwriaeth cyffredinol o hawliau plant. **Roedd y cyfranogwyr yn galw am raglen gyson, orfodol i ddatblygu'r gweithlu Hawliau Plant, gyda ffocws ar ddeall CCUHP a gwreiddio hawliau mewn ymarfer. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd hyfforddi cysylltiedig â gwreiddio egwyddorion YFfG, a defnyddio adnoddau YFfG, h.y. y Matrics ac Asesiad Effaith ar Hawliau Plant.**
 - Gall YFfG ddarparu map o'r ffordd i sefydliadau cymhleth wreiddio hawliau plant, ond mae diffyg dealltwriaeth o sut mae rhoi YFfG ar waith a manteision hynny (sy'n argyhoeddi llunwyr penderfyniadau strategol) yn rhwystr, h.y., deall sut mae YFfG yn cyfrannu at gyflawni gofynion deddfwriaethol. **Mae gofyn datblygu astudiaethau achos arfer da sy'n ymwneud â manteision gwreiddio egwyddorion YFfG — er mwyn annog ymrwymiad ar lefel uwch.**
 - Byddai'n ddefnyddiol cael rhaglen o **hyfforddiant YFfG sy'n targedu llunwyr penderfyniadau uwch**, gan gynnwys yn benodol y dyletswyddau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig ag YFfG.
 - Ar sawl achlysur mewn sawl sector, codwyd yr angen am ganllawiau cyfranogiad. Barnwyd bod y gallu i ddeall anghenion ymgysylltu plant a phobl ifanc yn rhwystr sylweddol. **Mae gofyn bod cefnogaeth yn benodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn gwasanaethau nad ydynt yn canolbwyntio'n llwyr ar blant, ond y mae eu gwaith yn effeithio ar blant.**

Beth sydd wedi newid o ganlyniad i wreiddio dull gweithredu YFfG? Faint o'r newid hwn sydd o ganlyniad i YFfG? Beth arall sydd wedi arwain at newid?

Mynegodd pob un o'r cyfranogwyr ofal, parodrwyd a chymhelliad i hyrwyddo gwireddu hawliau plant ymhellach (cyfranogiad gan amlaf) yn eu gwaith, ac yng ngwaith eu sefydliad. Y peth arall sy'n glir yw bod y cyfranogwyr sy'n defnyddio YFfG ac sy'n rhan o'r astudiaeth hon yn bendant o blaid yr adnodd, yn deall ei fanteision ac yn awyddus i weld cyfarwydeb a fyddai'n sicrhau defnydd mwy cadarn ohono yng Nghymru. Yn achos y mwyafrif, hwn oedd y fframwaith strategol maen nhw'n chwilio amdano i droi rhethreg gymhleth hawliau yn realiti i blant, i droi uchelgais yn weithredu, ac mae'r gwaith a wnaed i gyflawni hyn wedi bod yn eglur ar hyd y gwaith ymchwil hwn.

Fodd bynnag, bron ym mhob achos, ac eithrio'r rhai oedd yn ymwneud â phrosiect penodol neu waith pilot gyda Swyddfa'r Comisiynydd, mater o siawns oedd y cymhelliad i ddefnyddio YFfG, a deuid ar draws YFfG wrth fynd ati i hyrwyddo'r gwaith hwnnw.

Ni ellir anwybyddu galwadau cystadleuol fel y 'sbardunau' sy'n cyfeirio gwaith, dros ben hawliau. Roedd deddfwriaeth ac agendâu swyddogion gwleidyddol ac uwch yn ffactorau allweddol yn hyn o beth, sy'n pwysleisio'r angen am gysylltu YFfG â'r sbardunau hynny.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Yn gyffredinol, mewn materion sy'n ymwneud â hawliau plant, pan fydd angen cefnogaeth, mae ymarferwyr yn ymwybodol o swyddfa'r Comisiynydd Plant, yn gwybod sut mae cael mynediad atynt am gefnogaeth, ac yn gallu gwneud hynny. Yr hyn sy'n llai eglur yw i ba raddau mae YFfG yn cael ei hyrwyddo, ac a yw pobl/gwasanaethau/sefydliadau yn defnyddio'r adnodd, heb gyswllt cychwynnol neu gefnogaeth gan y Swyddfa a'i swyddogion. Mae hefyd yn aneglur a fyddai'r rhai sydd heb brif ffocws ar hawliau plant yn ei ddefnyddio heb hyrwyddo pellach neu 'werthu'r adnodd'. Byddai gwaith archwilio pellach ar y gwasanaethau nad ydynt yn derbyn cefnogaeth yn bwrw goleuni ar hyn.

Beth sy'n angenrheidiol i wneud YFfG yn gynaliadwy?

Dyma anghenion cyfranogwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Plant i wneud YFfG yn gynaliadwy i'r dyfodol:

Eiriolaeth: hyrwyddo YFfG yn ehangach, gydag eiriolaeth benodol ynghylch manteision strategol gwreiddio'i egwyddorion.

Swyddi lefel uwch: bod eiriolaeth ynghylch hawliau plant ac adnoddau i'w gwreiddio yn dod gyda'r 'awdurdod' angenrheidiol i annog ymrwymiad hanfodol ar lefel uwch pan fydd y Comisiynydd yn dadlau o blaid hynny.

Lobio: Lobio arweinwyr uwch, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, fel eu bod yn ymgorffori YFfG mewn polisiau a chynllunio.

Craffu: Craffu'n ffurfiol ar sefydliadau gan ddefnyddio YFfG. Gwirio cynnydd yn flynyddol gan ddefnyddio'r offeryn matrices. Craffu ar y defnydd o egwyddorion YFfG mewn polisiau a chynlluniau llywodraethu, e.e., Cynlluniau yr Heddlu a Throseddau a chwricwla ysgolion.

Hyfforddi: Datblygu dull cydlynus o estyn cyfleoedd hyfforddi YFfG, gan gynnwys ymgorffori cefnogaeth ar gyfer y matrices ac Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) a chysylltiadau clir ar gyfer sut mae gwreiddio gwaith YFfG i gyflawni'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd gan sefydliadau yng nghyswllt plant a phobl ifanc.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Argymhellion

Ar sail y canfyddiadau yn yr astudiaeth hon, dyma'r argymhellion:

Adnoddau a Chefnogaeth

- Parhau i hyrwyddo ac annog gwasanaethau cyhoeddus i fabwysiadu YFfG, gan ddarparu'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd eisoes yn bodoli gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol a bod croeso iddynt.
- Adolygu a diweddarau adnoddau cysylltiedig ar y wefan mewn perthynas ag YFfG, gan gynnwys:
 - Astudiaethau achos arfer da, wedi'u seilio ar y gwaith a drafodwyd yn yr astudiaeth hon.
 - Datblygu adnoddau penodol sy'n canolbwyntio ar wreiddio ac atebolrwydd, e.e., astudiaethau achos yn canolbwyntio ar ddefnydd a heriau cymhwyso'r Matrics neu CRIA yn ymarferol.
 - Datblygu adnoddau penodol i arweinwyr strategol sy'n gysylltiedig â'r gofynion deddfwriaethol i blant a phobl ifanc.
 - Archwilio matrics ar-lein sy'n gallu cael ei gwblhau a'i gadw, un egwyddor ar y tro, a'i ddychwelyd i olrhain cynnydd.
 - Edych ar ddatblygu neu adnewyddu canllawiau cyfranogiad.

Eiriolaeth a chyfathrebu

- Lledaenu cyfathrebu wedi'i adnewyddu am YFfG, yr adnoddau sydd ar gael a manteision defnyddio'r adnodd wrth i sefydliadau adfer wedi'r pandemig.
- Cyfathrebu sy'n targedu arweinyddion uwch, gan ddangos bod gweithio i wreiddio YFfG yn gallu cydweddu a chyd-fynd â galwadau cystadleuol canfyddedig, e.e., gofynion deddfwriaethol ac agendâu gwleidyddol.
- Parhau i ddadlau o blaid arweinyddion dynodedig mewn sefydliadau sy'n hyrwyddo hawliau plant ac yn gweithio i'w gwreiddio.

Hyfforddiant

- Ystyried datblygu ac estyn rhaglen gydlynus o gyfleoedd hyfforddi YFfG sy'n ymwneud â gwreiddio egwyddorion YFfG. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth benodol ar gyfer pryd a sut mae defnyddio'r broses CRIA, a chynnwys amser i gwblhau'r matrics yn y sesiynau.
- Ystyried datblygu rhaglen o hyfforddiant YFfG sy'n targedu llunwyr penderfyniadau lefel uwch, a byddai cynnwys yn benodol y dyletswyddau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig ag YFfG yn ddefnyddiol.
- Parhau â'r trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru (LIC) ynghylch datblygu rhaglen Genedlaethol drefnus a chyson o ddatblygu'r gweithlu, gyda ffocws ar ddeall CCUHP, a gwreiddio hawliau mewn ymarfer.

Cydweithio

- Archwilio cyfleoedd ar gyfer setiau dysgu gweithredol lle gall ymarferwyr ddod ynghyd i archwilio'r heriau wrth wreiddio YFfG, a chael hyd i atebion gyda'i gilydd.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cydweithio/seminarau/gweithdai sy'n canolbwyntio ar un egwyddor.
- Archwilio cyfleoedd i gynnal seminarau mwy rheolaidd, rhwng sectorau ac ar draws sectorau.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

- Ystyried hwyluso Cynhadledd Flynyddol YFfG, lle gall unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant ddod a siarad a dysgu a dathlu'r gwaith sy'n digwydd.

Cyfarwyddeb ac Atebolrwydd

- Lobio/cynghori LIC i ymrwymo'n glir i YFfG mewn Polisi a Strategaeth Cenedlaethol sy'n ymwneud â phlant (mewn modd tebyg i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio), gan gydnabod a dyrannu'r adnoddau a'r gefnogaeth sy'n ofynnol i wreiddio egwyddorion a/neu hawliau y ffordd gywir ym mhob sector.
- Lobio'r Llywodraeth a swyddogion gweithredol gwasanaethau cyhoeddus i integreiddio egwyddorion YFfG mewn adroddiadau, ceisiadau am arian a phrosesau eraill sy'n sicrhau atebolrwydd gwaith a ariannir gan y llywodraeth.
- Dylai LIC/CPC ystyried swyddog sy'n gyfrifol am gefnogi cyfarwyddeb y gwaith hwn, rhywun sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r adnoddau i weithio ar draws cyrff cyhoeddus, dim ond i'w cefnogi i wreiddio CCUHP yn eu hymarfer.
- Archwilio'r awydd i estyn dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chyfranogiad plant yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus, a lle bo hynny'n briodol, lobio Llywodraeth Cymru i weithredu.

Craffu

- Gofyn am wybodaeth gan y BGCau ynghylch sut bydd hawliau plant yn cael eu hymgorffori i Gynlluniau Llesiant 2022.
- Gofyn am wybodaeth gan benaethiaid ysgolion/awdurdodau addysg ynghylch cynlluniau i ymgorffori YFfG/Hawliau Plant mewn cwricwla newydd lleol.
- Gofyn am wybodaeth gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ynghylch sut bydd hawliau plant yn cael eu hymgorffori yng Nghynlluniau'r Heddlu a Throseddau yn 2021/22.
- Edrych ar sefydlu strwythurau i graffu ar sefydliadau gan ddefnyddio YFfG, e.e., Gwirio cynnydd yn flynyddol gan ddefnyddio offeryn y matrices.

Bylchau a chyfleoedd yn y dyfodol

- Efen glir a phwrpasol yn yr astudiaeth hon yw hepgor lleoliadau Addysg. Datblygwyd Y Ffordd Gywir i Addysg yn 2017 ac mae'n bryd i'w ddiweddarau er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu newidiadau i'r cyd-destun addysg er mwyn adlewyrchu dyletswyddau newydd o safbwynt hawliau dynol plant yn Neddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. O ystyried y newidiadau sylweddol i fyd Addysg yng Nghymru, cydnabyddir y dylai hwn fod yn ddarn o waith ar wahân i'r gwerthusiad hwn. Argymhellir cynnal gwerthusiad cydweddus, ar wahân o YFfG: Addysg.
- Gan mai cynulleidfa darged yr arolwg hwn oedd sefydliadau sydd eisoes mewn cysylltiad â Swyddfa'r Comisiynydd Plant, yn cael eu cefnogi ganddynt, neu'n hysbys iddynt, gallai fod yn ddefnyddiol gwneud gwaith ymchwil tebyg yn fwy cyffredinol ymhlith sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, er mwyn deall yn fanylach pam nad yw pobl yn defnyddio YFfG. Argymhellir bod gwaith pellach yn cael ei wneud i archwilio cwestiynau ymchwil gwreiddiol yr astudiaeth hon, gyda gwasanaethau a sefydliadau nad ydynt mewn cysylltiad â CPC.

Mae mwy o wybodaeth am Y Ffordd Gywir ar gael [yma](#)



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales